# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd

**Noddir gan Mark Isherwood AC**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd**
**ddydd Mercher 13 Mehefin 2018**
**12.00 - 23.30**
**Ystafell Gynadledda B**
**Tŷ Hywel, Bae Caerdydd**

**Yn bresennol:** Mark Isherwood, Tracey Blockwell, Alison Tarrant, y Cynghorydd Mark Wilson, Jenny Hambridge, Melanie Warburton, Richard Ebley, Sandra Burton, Mark Wilson, Martin Griffiths, Sandra Morgan, Ian Chandler, Peter Jones, Samuel Stone, Huw Thomas, Zoe Richards, Rebecca Phillips, Rhian Davies, Miranda Evans, Kate Young, Babs Lewis, Martyn Jones, Kelly Stuart.

**Ymddiheuriadau:** Simon Thomas, Owen Morgan, Jan Thomas, Llyr Gruffydd.

## 1. Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Cafodd y grŵp yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y cyfnod 2017-18. Cymeradwywyd yr Adroddiad gan bawb.

**Ethol swyddogion**

Cyfrifoldeb cyntaf y grŵp oedd penodi Ysgrifennydd a Chadeirydd am y flwyddyn i ddod.

Mark Isherwood AC oedd yr unig enw a gyflwynwyd ar gyfer rôl y Cadeirydd.
Derbyniwyd yr enwebiad gan bawb.

**Cynigiwyd gan:** Peter Jones
**Eiliwyd gan:** Martin Jones

Cafwyd un enwebiad ar gyfer swydd yr Ysgrifennydd gan Zoe Richards o Anabledd Dysgu Cymru.
Derbyniwyd yr enwebiad gan bawb.

**Cynigiwyd gan:** Rhian Davies
**Eiliwyd gan:** Kate Young

## 2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir.

**Cynigiwyd gan**: Rhian Davies
**Eiliwyd gan**: Martin Jones

## 3. Cyflwyniadau:

**Tai a Phobl Anabl, Argyfwng Cudd Cymru - Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**

Siaradodd cynrychiolydd o'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol am ei ymchwiliad diweddar i dai i bobl anabl. Drwy lansio'r ymchwiliad, roedd am ddeall profiad byw pobl anabl o ran tai ac i ba raddau y mae awdurdodau lleol a darparwyr tai yn bodloni eu rhwymedigaethau cyfreithiol. Yng Nghymru, ymatebodd 21 allan o'r 22 o gynghorau i'w arolwg.

Datgelodd canlyniad yr ymchwiliad nad yw hawl pobl i fyw'n annibynnol yn cael ei fodloni. Mae pobl anabl yn torri calon ac yn teimlo'n rhwystredig gan y system dai, mae prinder mawr o ran tai hygyrch, mae pobl yn cael eu rhoi mewn cartrefi i ffwrdd o'u teuluoedd a'u ffrindiau, mae pobl yn gyfyngedig yn eu dewisiadau o ran ble y gallant fyw oherwydd y prinder ac mae pobl yn treulio amser hir ar restr aros.

Nododd fod y data sydd ar gael yng Nghymru yn arbennig o wael. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi diweddaru Arolwg Tai Cymru, nad yw wedi'i gynnal ers 1998, a bydd yn cael ei ryddhau yn yr hydref.

Dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu adeiladu 20,000 o dai fforddiadwy erbyn 2021 ond nad oes targed o fewn y ffigur hwnnw o faint o'r cartrefi hynny fydd yn rai hygyrch.

Yng Nghymru, amcangyfrifir y bydd nifer y bobl dros 65 oed sydd â nam symudedd yn cynyddu 58 y cant erbyn 2035, ac felly mae angen gweithredu ar frys ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Nid yw'r angen i fynd i'r afael â'r sefyllfa bresennol yn cael ei adlewyrchu mewn cynlluniau a wneir gan awdurdodau lleol. O'r arolwg, mae'n amlwg mai dim ond 1 allan o'r 22 o awdurdodau sydd wedi pennu targed canran ar gyfer cartrefi hygyrch ac addasadwy yn eu hardal.

Mae'r Comisiwn yn pryderu ynghylch y diffyg data a gedwir gan awdurdodau lleol ynglŷn â gofynion tai pobl anabl a gwybodaeth am y stoc sydd ganddynt yn codi pryderon ynghylch gwaith cynllunio yn y dyfodol.

O ran addasiadau, dywedodd pobl anabl fod y system ar gyfer gwneud cais am gyllid yn gymhleth ac yn aml yn cynnwys amseroedd aros hir. Fodd bynnag, roedd yn amlwg y gall cael yr addasiadau cywir wneud gwahaniaeth sylweddol i sut y mae rhywun yn byw'n annibynnol.

Pwysleisiodd y pwysigrwydd o wrando ar bobl anabl. Rhaid i awdurdodau lleol a darparwyr tai ymgysylltu â phobl anabl ar lefel strategol. Dim ond 55 y cant o awdurdodau lleol a ddywedodd eu bod yn cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar eu cynlluniau datblygu lleol.

Daeth y Comisiwn i'r casgliad a ganlyn:

- mae angen gwell perfformiad gan awdurdodau lleol.
- pan mae gan bobl addasiad neu gartref hygyrch, gall gael effaith gadarnhaol enfawr ar eu bywyd.
- dylai'r Cynghorau a'r Llywodraethau fod yn fwy effeithiol wrth ymgysylltu â phobl anabl.
- mae angen adeiladu mwy o dai hygyrch ac addasadwy.
- mae angen i Lywodraeth Cymru gyflwyno Strategaeth Dai Genedlaethol i sicrhau bod cyflenwad digonol o gartrefi hygyrch ac addasadwy.
- Llywodraeth Cymru i sicrhau bod pob cartref newydd a gaiff ei adeiladu yng Nghymru yn cael ei adeiladu i safonau Lifetime Homes a bod 10 y cant o'r holl gartrefi newydd ar draws daliadaeth yn cael eu hadeiladu yn addas ar gyfer cadeiriau olwyn.
- awdurdodau lleol a darparwyr tai i fynd i'r afael â'r rhwystrau a'r oedi gyda'r systemau addasu.
- Llywodraeth Cymru i ddarparu cyllid ychwanegol i gynyddu cyngor a gwybodaeth annibynnol ynghylch tai i bobl anabl.

Mae'r Comisiwn yn gweithio gyda Tai Pawb i ddatblygu pecyn cymorth i Gynghorwyr er mwyn gwella gwaith craffu a chodi ymwybyddiaeth ymhlith aelodau etholedig o dai a phobl anabl.

Mae hefyd yn cynhyrchu pecyn cymorth ar gyfer pobl anabl i'w gwneud yn fwy ymwybodol o'u hawliau a'r mathau o gefnogaeth a chyngor sydd ar gael.

Mae'n gobeithio lansio'r ddau becyn cymorth yn gynnar ym mis Gorffennaf.

Awgrymodd MI ysgrifennu llythyr cefnogol gan y Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd at Lywodraeth Cymru.

**Menter Dementia Cymru Gyfan - Cynnig ar gyfer pecyn gofal integredig cydgysylltiedig i bobl sydd ag anabledd dysgu sy'n datblygu dementia - Shared Lives Cymru**

Siaradodd cynrychiolwyr am eu Menter Dementia Cymru Gyfan. Mae'n ceisio datrys problem o ran anabledd dysgu a'r llwybr gofal dementia. Mae'n awyddus i gynhyrchu model cymunedol sy'n galluogi pobl sydd ag anabledd dysgu i barhau mor annibynnol â phosibl yn y gymuned, cyhyd â phosibl.

Nod y fenter yw gwella'r gefnogaeth i bobl sydd ag anabledd dysgu sy'n datblygu dementia ac osgoi sefyllfaoedd argyfwng fel arosiadau hir yn yr ysbyty.

Mae hefyd yn gweithio gyda'r Coleg Seiciatreg Brenhinol a Meddygon Teulu i godi ymwybyddiaeth a chynyddu capasiti ar gyfer diagnosis a gobeithio gwneud newidiadau i'r Archwiliad Iechyd Blynyddol ar gyfer pobl sydd ag anabledd dysgu.

Mae am weld pobl yn cael eu cefnogi i aros yn eu cartrefi eu hunain cyhyd â phosibl, gan gydnabod efallai y bydd angen mynd i mewn i gartref gofal dementia arbenigol ond i hynny fod yn y diwedd un ac nid yn y dechrau fel y mae ar hyn o bryd.

Gallai'r llwybr dementia pwrpasol a hollgynhwysol fod yn ddatrysiad cost cymharol isel ac mae'n cynnig atebion ataliol, gwybodaeth, hyfforddiant a mynediad at arbenigwyr anabledd dysgu ar lefel gymunedol.

Mae'n croesawu mewnbwn gan sefydliadau eraill ac yn ceisio nawdd gan Aelodau'r Cynulliad i ddatblygu'r cynnig.

Awgrymodd MI gysylltu ag Aelodau Cynulliad unigol yn lleol ac yn rhanbarthol i ofyn am eu cymorth a'u cefnogaeth. At hynny, bydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd yn ysgrifennu llythyr ategol at y Gweinidog.

Cynigiodd MI chwilio am gyfleoedd i godi cwestiynau yn y Siambr neu wneud datganiad ac awgrymu gofyn i Aelodau'r Cynulliad eraill hefyd.

Hefyd, estynnodd MI wahoddiad iddynt i'r Grŵp Trawsbleidiol ar Ofal Hosbis a Gofal Lliniarol, y mae MI yn Gadeirydd arno.

**Diweddariad ar yr Adolygiad o'r Fframwaith Byw'n Annibynnol a Sylwadau Clo Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl**

**Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl**

Rhoddodd Rhian Davies y wybodaeth ddiweddaraf am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl.

Ar ddiwedd mis Awst, cyhoeddwyd adroddiad a gwnaed 77 o argymhellion i Lywodraeth y DU a Llywodraethau datganoledig i fynd i'r afael â'r pryderon. Erbyn diwedd mis Chwefror, nid oedd Llywodraeth y DU wedi rhoi unrhyw ymateb ffurfiol i'r Cenhedloedd Unedig.

O ganlyniad i hyn, anfonodd glymblaid sefydliadau'r DU sy'n monitro'r confensiwn lythyr agored at y Prif Weinidog yn galw am gyfarfod ac i ymateb yn ffurfiol i'r Pwyllgor Hawliau Dynol a Phobl Anabl. Cafwyd llythyr ar ddiwedd mis Ebrill gan Sarah Newton, y Gweinidog Pobl Anabl. Croesawodd y cynnig ar gyfer cyfarfod i drafod sut y mae'r llywodraeth yn gweithredu'r sylwadau clo. Mae'r Glymblaid wedi derbyn y cynnig o gyfarfod ac yn aros am ddyddiad.

**Y Fframwaith Byw'n Annibynnol**

Yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru yn ceisio cyflawni rhwymedigaethau'r Confensiwn yn bennaf drwy gyfrwng y Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol a gyhoeddwyd am y tro cyntaf yn 2013.

Yn y cyfarfod diwethaf, cytunwyd y bydd y Fframwaith diwygiedig yn dod mewn dwy ran, dogfen lefel uchel yn ailddatgan ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r Confensiwn a chynllun gweithredu a fydd yn cael ei ddiweddaru'n flynyddol yn nodi'r camau allweddol y mae Llywodraeth Cymru yn eu datblygu.

Caiff y ddogfen ei hailenwi 'Gweithredu ar Anabledd, yr Hawl i Fyw'n Annibynnol' a chaiff ei chwblhau yn ystod yr haf. Bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn dilyn yn yr hydref. Bydd y Fframwaith yn ffocws Cynhadledd Flynyddol Anabledd Cymru ar 12 Hydref yng ngogledd Cymru a bydd Leslie Griffiths AC yn mynychu ac yn trafod ei sylwadau ar y fframwaith diwygiedig.

## 4. Cyfarfodydd yn y dyfodol.

Yr holl ddyddiadau a lleoliadau i'w cadarnhau.

**16 Hydref 2018** - Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd, Grŵp Trawsbleidiol ar Bobl Hŷn a Grŵp Trawsbleidiol ar Dai yn dod at ei gilydd i drafod argymhellion yr adroddiad Tai a Phobl Anabl, Argyfwng Cudd Cymru.

**5 Rhagfyr 2018 -** Grŵp Trawsbleidiol ar Awtistiaeth a Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd yn dod at ei gilydd i drafod materion o ran trafnidiaeth.

**Rhagfyr (dyddiad i'w gadarnhau)** - Cyfarfod Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd yng ngogledd Cymru.

## 5. Unrhyw fater arall

**Ymgynghoriad Cyngor Sir Powys ar dalu i barcio ar gyfer deiliaid bathodynnau glas ym Mhowys.**

Codwyd tlodi anabledd mewn nifer o gyfarfodydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd ac awgrymodd yr Ysgrifennydd mai dyma'r thema ar gyfer cyfarfod gogledd Cymru.

Awgrymodd Rhian Davies Sefydliad Bevan fel siaradwr posibl i drafod ei raglen waith ar gyflogaeth a thlodi.

**Camau i'w cymryd:**

**Cam 1:** Y Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd i ysgrifennu llythyr at Lywodraeth Cymru i gefnogi ymchwiliad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i dai i bobl anabl.

**Cam 2**: MI i geisio cyfleoedd i godi cwestiynau yn y Siambr i gefnogi menter dementia Cymru gyfan.